Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Mesurau arbennig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: adroddiad cynnydd Gorffennaf i Medi 2024

Trosolwg o’r bwrdd iechyd a’r cynnydd a wnaed o dan fesurau arbennig rhwng Gorffennaf a Medi 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 30 Hydref 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 30 Hydref 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-i-medi-2024-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Cyflwyniad

Pa gynnydd sydd wedi'i wneud?

Llywodraethiant

Ansawdd gofal

Perfformiad a chanlyniadau

Arweinyddiaeth, gallu a diwylliant

Trefniadau llywodraethiant a rheolaeth ariannol

Cynllunio a thrawsnewid gwasanaethau

Gwasanaethau bregus

Iechyd meddwl

Gwasanaethau fasgwlaidd

Casgliadau



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-i-medi-2024-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Ar 27 Chwefror 2023, codwyd lefel uwchgyfeirio Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i fesurau arbennig yn dilyn pryderon am effeithiolrwydd y bwrdd, diwylliant y sefydliad, ansawdd gwasanaethau a chamau i ad-drefnu gwasanaethau, trefniadau o ran llywodraethiant, diogelwch cleifion, trefniadau cyflawni gweithredol, arweinyddiaeth a rheolaeth ariannol.

**Mae pum adroddiad wedi'u cyhoeddi hyd yma**, sy'n ystyried ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y sefyllfa uwchgyfeirio i fesurau arbennig. Mae'r adroddiadau yn cydnabod y gwelliannau sydd wedi'u gwneud a'r heriau sy'n wynebu'r bwrdd iechyd wrth iddo roi'r prosesau a'r systemau angenrheidiol ar waith i ddod yn sefydliad cynaliadwy.

## Y cefndir

I helpu'r bwrdd iechyd i gyflawni'r gwelliannau, cytunwyd ar fframwaith mesurau arbennig, gan gynnwys meini prawf isgyfeirio, gyda'r bwrdd ym mis Mai 2024. Amlinellwyd y blaenoriaethau a'r disgwyliadau ar draws chwe pharth ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2024. Mae'r adroddiad hwn yn adolygu'r cynnydd o ran y blaenoriaethau hynny a chaiff ei ategu gan **ddisgwyliadau cyhoeddedig Llywodraeth Cymru** hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025.

## Goruchwylio mesurau arbennig

Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i fod yn destun prosesau goruchwylio manwl yn rhan o'r weithdrefn uwchgyfeirio i fesurau arbennig, gan gynnwys:

- fforwm gwella mesurau arbennig chwarterol gyda'r bwrdd, a gaiff ei gadeirio gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-i-medi-2024-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gyda'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant hefyd yn bresennol
- cyfarfodydd misol rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a chadeirydd y bwrdd iechyd i asesu cynnydd yn erbyn amcanion y cadeirydd
- cyfarfodydd sicrwydd iechyd i bob oedran gyda'r bwrdd iechyd, a gaiff eu cadeirio gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant a'u cynnal bob chwarter
- bwrdd sicrwydd mesurau arbennig chwarterol, a gaiff ei gadeirio gan brif weithredwr GIG Cymru, er mwyn adolygu cynnydd o ran blaenoriaethau'r fframwaith mesurau arbennig
- cyfarfodydd rheolaidd rhwng y bwrdd iechyd a Llywodraeth Cymru i olrhain cynnydd
- cyfarfodydd Tîm Gweithredol ar y Cyd a gynhelir ddwywaith y flwyddyn
- ymweliadau rheolaidd â lleoliadau'r bwrdd iechyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant a'r Prif Weinidog

# Pa gynnydd sydd wedi'i wneud?

# Llywodraethiant

Yn dilyn penodi amrywiaeth lawn o aelodau annibynnol, a'r cyfarwyddwr llywodraethiant, mae'r bwrdd iechyd wedi canolbwyntio ar gryfhau llywodraethiant corfforaethol ar draws y sefydliad. Mae hynny'n cynnwys:

- gweithredu'r strwythur llywodraethiant a phwyllgorau yn llawn o fis Ebrill 2024 ymlaen
- cytundeb gan y bwrdd ynghylch y cylch gorchwyl ar gyfer **pob pwyllgor a grŵp cynghori**; bydd y bwrdd iechyd yn parhau i'w adolygu a'i fireinio yn unol ag egwyddorion llywodraethiant da
- cyhoeddi **calendr cyfarfodydd corfforaethol** ar gyfer 2024 i 2025, sy'n nodi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-i-medi-2024-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

dyddiadau allweddol ar gyfer cyfarfodydd y bwrdd a phwyllgorau
- grŵp cynghori cadeiryddion pwyllgorau sydd wedi'i sefydlu i hyrwyddo gweithio ar draws pwyllgorau o ran materion yn ymwneud ag ansawdd, adnoddau, gweithgarwch neu ganlyniadau
- mae'r **fframwaith perfformiad ac atebolrwydd integredig wedi'i gymeradwyo gan y bwrdd** a chaiff ei ddefnyddio i dynnu sylw'r bwrdd a'i bwyllgorau at faterion a phryderon
- mae'r pwyllgor perfformiad, cyllid a llywodraethu gwybodaeth yn goruchwylio materion allweddol gan ganolbwyntio ar y manylion a rhoi sicrwydd i'r bwrdd
- mae'r **fframwaith rheoli risg integredig wedi'i gymeradwyo gan y bwrdd**, gan amlinellu'r cyfrifoldebau, y rolau a'r trefniadau atebolrwydd allweddol

Gwnaeth yr adolygiad o benodiadau dros dro hyd at swyddi gweithredol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr 12 argymhelliad. Cyhoeddodd y bwrdd iechyd ei ymateb rheoli i'r adolygiad ym mis Tachwedd 2023. Roedd yn cynnwys cynllun gweithredu yn amlinellu sut y byddai'n mynd i'r afael â'r saith argymhelliad i'w rhoi ar waith gan y bwrdd iechyd, a oedd yn ymwneud â chryfhau prosesau mewnol a gwreiddio diwylliant o gydymffurfio a gwella.

Mae pwyllgor tâl a thelerau gwasanaeth y bwrdd iechyd yn goruchwylio'r cynllun gweithredu ac yn monitro ac yn cymeradwyo'r holl benodiadau gweithredol a'r uwch-benodiadau ac mae'n cael adroddiadau rheolaidd ar benodiadau dros dro a chydymffurfiaeth. Cyflwynwyd yr adroddiad cynnydd diweddaraf i'r pwyllgor ar 19 Awst 2024. Cafodd **cylch gorchwyl y pwyllgor** ei ddiweddaru yn gynharach eleni yn rhan o brosesau mewnol manylach.

Mae'r bwrdd iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran rhoi argymhellion adolygiad Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd ar waith, gyda 97% (102) o argymhellion wedi'u cyflawni. Mae gwaith ar dri cham gweithredu mewn perthynas â strwythur swyddfa ysgrifennydd y bwrdd yn parhau i fynd rhagddo. Ar hyn o bryd, cynhelir adolygiad strwythur llawn ar y sefydliad a bydd y camau gweithredu hyn yn cael eu cyflawni pan fydd y strwythur gweithredu wedi'i gadarnhau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-i-medi-2024-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Ansawdd gofal

Ym mis Mai 2024, cymeradwyodd y bwrdd ddull gweithredu'r bwrdd iechyd o ran system rheoli ansawdd. Canolbwyntir yn awr ar roi'r system rheoli ansawdd ar waith, gyda'r gwasanaeth fasgwlaidd a'r gwasanaeth wroleg yn gweithredu fel y ddau fraenarwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi cymeradwyo'r polisi pryderon integredig newydd ac wedi dechrau ei roi ar waith. Mae'n darparu fframwaith i gydnabod, ymateb, dysgu a gwella o ddigwyddiadau, cwynion ac adolygiadau marwolaethau.

Mae'r bwrdd iechyd wedi bod yn ymdrin â materion gwaddol difrifol, gan gynnwys methiannau i weithredu'r broses gwyno yn brydlon, cynnal gwaith cynllunio a chymorth strategol annigonol neu aneffeithiol, amseroldeb ymchwiliadau'r bwrdd iechyd a'r ddibyniaeth barhaus ar gofnodion papur ynghylch cleifion.

Mae hefyd yn canolbwyntio ar wella ei broses ymateb i ddigwyddiadau adroddadwy cenedlaethol, a dysgu ohonynt. Mae pob digwyddiad adroddadwy cenedlaethol yn destun adolygiad cyflym gwneud pethau'n ddiogel, a phanel dysgu cyflym (o dan arweiniad swyddog gweithredol neu ddirprwy clinigol) ac ymchwiliad pellach mewn rhai achosion.

Yn ystod y chwe mis diwethaf, mae'r bwrdd iechyd wedi canolbwyntio ar wella ei brosesau a'i systemau wrth ymateb i gwynion. Mae wedi sefydlu proses ddiwygiedig ar gyfer ymdrin â chwynion mewn modd cyson, a'i rhoi ar waith. Ers 1 Medi 2024, mae hwb integredig newydd i ymdrin â phryderon wedi bod yn weithredol. Mae'r hwb yn helpu i driongli materion, dysgu ac amseroedd ymateb i gwynion drwy olrhain a monitro ymchwiliadau dysgu drwy grŵp goruchwylio wythnosol o dan arweiniad y weithrediaeth.

Mae'r prosesau diwygiedig hyn wedi dechrau cael effaith, gyda chanran y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-i-medi-2024-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cwynion a gaewyd o fewn 30 o ddiwrnodau wedi codi o 33.3% ym mis Ebrill 2024 i 58.9% erbyn diwedd mis Medi 2024. Rhaid cynnal y gwelliant hwn o hyn ymlaen.

Yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst 2024, cafodd y tîm profiad cleifion a gofalwyr 8,793 o ymatebion i'r arolwg adborth gydag 82.76% o'r ymatebwyr yn fodlon iawn â'u profiad cyffredinol o gael gafael ar wasanaethau – dyma'r lefel boddhad uchaf sydd wedi'i chofnodi yn ystod y 12 mis diwethaf.

Ar y cyfan, mae'r gyfradd boddhad cyfartalog o ran adrannau brys wedi cynyddu 4.23% ers mis Ebrill 2024, gyda'r ymatebwyr yn nodi bod eu profiad cyffredinol ym mis Awst 2024 yn 6.90, gyda sgôr o 10 yn ardderchog.

Mae enghreifftiau o welliannau sydd wedi'u cyflawni yn dilyn yr adborth yn cynnwys y canlynol:

- peiriant gwerthu bwyd wedi'i osod yn adran frys Ysbyty Gwynedd yn dilyn adborth ynghylch y gallu i gael gafael ar fwyd
- amseroedd aros yn cael eu cyhoeddi yn gyson yn Ysbyty Maelor Wrecsam
- gwell gwybodaeth i gleifion yn yr ardal aros yn Ysbyty Glan Clwyd

Yn dilyn arolygiad dirybudd o'r adran frys yn Ysbyty Glan Clwyd yn gynharach eleni, **cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ym mis Awst 2024 ei bod yn isgyfeirio'r adran o wasanaeth sydd angen ei wella'n sylweddol**. Gwnaeth arolygwyr gydnabod bod gwelliannau wedi'u gwneud ers arolygiadau blaenorol, ond amlygwyd bod angen newidiadau pellach o hyd, a bod pobl yn aros yn rhy hir i gael triniaeth.

## Perfformiad a chanlyniadau

Ers mis Chwefror 2023, mae nifer yr amseroedd aros hir i gleifion wedi lleihau ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-i-medi-2024-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

y cam cleifion allanol ac ar y cam triniaeth. Rhwng mis Chwefror 2023 a mis Awst 2024, gwelwyd bod nifer y llwybrau cleifion orthopedig ar gyfer y cyfnod rhwng atgyfeirio cleifion a'u trin sy'n aros mwy na 104 o wythnosau wedi lleihau 49.4%, nifer y llwybrau sydd â chyfanswm arosiadau o fwy na 104 o wythnosau wedi lleihau 1.2% a nifer y llwybrau sy'n aros mwy nag wyth wythnos am eu profion diagnostig wedi lleihau 7.0% yn ystod yr un cyfnod. Mae'r perfformiad ar gyfer cleifion canser yn amrywiol o hyd. Effeithir arno gan heriau mewn gwasanaethau megis wroleg a dermatoleg.

Mae perfformiad yn erbyn y mesurau iechyd meddwl amrywiol i bobl o dan 18 oed wedi gwella, gyda 79.6% o'r asesiadau'n cael eu cwblhau o fewn 28 o ddiwrnodau ym mis Mehefin 2024 o gymharu â 57.8% ym mis Chwefror 2023, a 41.6% o ymyriadau yn dechrau o fewn 28 o ddiwrnodau ym mis Mehefin 2024 o gymharu â 26.8% ym mis Chwefror 2023. Er y gwelliant hwn, mae'r perfformiad yn parhau i fod islaw'r targed o 80% ar gyfer pob un o'r mesurau hyn. Ar gyfer iechyd meddwl oedolion, mae'r perfformiad ar gyfer ymyriadau a gaiff eu cwblhau o fewn 28 o ddiwrnodau yn parhau i fod uwchlaw'r targed ar 82.4% ym mis Mehefin 2024, a gwelwyd gwelliant o ran asesiadau a gwblhawyd o fewn 28 o ddiwrnodau ar 74.7% ym mis Mehefin 2024.

Canolbwyntir ar ddileu arosiadau hir ar gyfer gofal a gynlluniwyd gydag ymrwymiad i drin pawb yn ei dro, rhoi mesurau effeithlonrwydd ar waith a gwella cynhyrchiant.

Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, y rhaglen Chwe Nod cenedlaethol a Gweithrediaeth y GIG i wella'r ddarpariaeth weithredol o wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng a diogelwch a phrofiadau cleifion. Fodd bynnag, mae'r perfformiad o ran gofal brys a gofal mewn argyfwng yn her sylweddol o hyd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-i-medi-2024-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Arweinyddiaeth, gallu a diwylliant

Mae gwaith o ran diwylliant a datblygu arweinyddiaeth dosturiol yn mynd rhagddo ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd. Caiff cynnydd yn y maes hwn ei fonitro gan bwyllgor pobl a diwylliant y bwrdd iechyd. Mae gwaith ymgynghori ac ymgysylltu ynghylch fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau y bwrdd iechyd wedi'i gynnal a bydd fersiwn derfynol yn cael ei rhannu â'r bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2024. Mae'r bwrdd iechyd wedi cyflwyno fframwaith datblygu arweinyddiaeth.

Ar 3 Hydref ym Mhrifysgol Bangor, agorwyd Ysgol Feddygol Gogledd Cymru yn swyddogol gan y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Dechreuodd y garfan gyntaf o fyfyrwyr ym mis Medi, gydag 80 o fyfyrwyr yn dechrau eu hastudiaethau mewn meddygaeth. Bydd nifer y myfyrwyr yn codi'n raddol nes cyrraedd y nifer mwyaf ffafriol o 2029 ymlaen (sef 140 o fyfyrwyr y flwyddyn).

Mae rhaglen recriwtio uwch-gyfarwyddwyr a chyfarwyddwyr gweithredol yn mynd rhagddi. Mae'r uwch-benodiadau a ganlyn wedi'u gwneud:

- Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol, Ebrill 2024
- Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd, Awst 2024
- Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd dros dro, Awst 2024
- Cyfarwyddwr Comisiynu a Pherfformio, Hydref 2024

Disgwylir i'r prosesau penodi ar gyfer y swyddi a ganlyn ddod i ben ym mis Hydref 2024:

- Cyfarwyddwr Ystadau a'r Amgylchedd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-i-medi-2024-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Cyfarwyddwyr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol
- Prif Swyddog Gweithredu

Mae'r bwrdd iechyd wedi adrodd am gynnydd o ran yr adolygiadau mesurau arbennig fel a ganlyn:

- adolygiad annibynnol o ddiogelwch gwasanaethau cleifion iechyd meddwl ac anableddau dysgu mewnol ac adolygiad dilynol - mae 94% o'r camau gweithredu wedi'u cyflawni, gyda phum cam gweithredu arall i'w cyflawni erbyn diwedd mis Mawrth 2025
- adolygiad o brosesau rheoli contractau a chaffael - mae 96% o'r camau gweithredu wedi'u cyflawni, gyda dau gam gweithredu arall i'w cyflawni
- adolygiad annibynnol o benodiadau dros dro i swyddi gweithredol - mae 71% o'r camau gweithredu wedi'u cyflawni; bydd y ddau gam gweithredu heb eu cyflawni yn rhan o'r rhaglen waith newydd o ran taith staff
- adolygiad o Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd - mae 97% o'r camau gweithredu wedi'u cyflawni; mae'r ddau gam gweithredu sy'n weddill yn rhan o adolygiad o strwythur Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd
- adolygiad annibynnol o Banel Ansawdd Gwasanaethau Fasgwlaidd: Rhan 1 a Rhan 2 - mae'r holl gamau gweithredu yn mynd rhagddynt heb unrhyw risgiau o ran cyflawni wedi'u hadrodd
- adolygiad annibynnol o'r pryderon a rannwyd ynghylch diogelwch cleifion - mae 79% o'r camau gweithredu wedi'u cyflawni; mae 10 cam gweithredu heb eu cyflawni ac yn mynd rhagddynt, sy'n gysylltiedig â rhoi'r system rheoli ansawdd ar waith
- adolygiad annibynnol o brosesau cynllunio integredig - mae 70% o'r camau gweithredu wedi'u cyflawni; mae'r holl gamau gweithredu sy'n weddill yn mynd rhagddynt heb unrhyw risgiau o ran cyflawni wedi'u nodi
- adolygiad Coleg Brenhinol y Seiciatryddion o adolygiadau iechyd meddwl - mae 15% o'r camau gweithredu wedi'u cyflawni, gyda 58% o'r holl gamau gweithredu yn mynd rhagddynt
- adolygiad Coleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr o wasanaethau llawfeddygol wroleg - mae cynnydd yn mynd rhagddo o ran y 24 o argymhellion a nodwyd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-i-medi-2024-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae'r **adroddiadau a'r ymatebion rheoli cysylltiedig sydd wedi'u cyhoeddi ar gael ar wefan y bwrdd iechyd**.

## Trefniadau llywodraethiant a rheolaeth ariannol

Comisiynwyd adolygiad o brosesau rheoli contractau a chaffael gan y bwrdd iechyd a chafodd ei gynnal gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r materion a godwyd. O'r 13 o'r camau gweithredu ar gyfer y bwrdd iechyd, mae 11 wedi'u cyflawni, gyda gwaith ar y ddau gam gweithredu sy'n weddill yn mynd rhagddo.

Yn 2023 i 2024, roedd sefyllfa alldro Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ddiffyg o £24.3 miliwn, a oedd £4.3 miliwn yn uwch na'r cyfanswm rheoli targed o £20 miliwn. Llwyddodd y bwrdd iechyd i wneud cynnydd yn ystod y flwyddyn o ran ei gynllun gwreiddiol, ond roedd yn un o dri bwrdd iechyd na chadwodd at y cyfanswm rheoli targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

O ran 2024 i 2025, nid oedd yn gallu cyflwyno cynllun tymor canolig integredig wedi'i gydbwyso'n ariannol a chyflwynodd gynllun blynyddol gyda diffyg a gynlluniwyd o £19.8 miliwn. Mae'r sefyllfa a ragwelir yn dibynnu ar y sefydliad yn cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £48 miliwn.

Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i wneud cynnydd o ran y cynllun gweithredu cyllid mesurau arbennig, a hynny gyda chymorth tîm cynllunio a chyflawni ariannol Gweithrediaeth y GIG. Mae gwelliannau a chyflawniadau yn cynnwys y canlynol:

- swydd pennaeth llywodraethiant ariannol wedi'i chreu o fewn yr adran gyllid i annog gwelliannau cynaliadwy o ran llywodraethiant ariannol
- yn sgil goruchwyliaeth ychwanegol gan grwpiau arbenigol, y tîm gweithredol a phwyllgorau'r bwrdd, mae'r amgylchedd o ran llywodraethiant ariannol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-i-medi-2024-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

wedi gwella

- mae llawlyfr ar gyfer deiliaid cyllidebau wedi'i adnewyddu'n llawn, ac mae'n rhan o raglen hyfforddi dreigl ar gyfer pob deiliad cyllideb
- mae'r bwrdd iechyd yn gweithio gyda Phwyllgor Cydwasanaethau GIG Cymru ar y rhaglen hyfforddi caffael a llywodraethiant; mae dros 200 o staff wedi elwa ar sesiynau hyfforddi yn ystod y chwe mis diwethaf
- mae system "nodiadau ffeil" newydd wedi'i chyflwyno ar draws y bwrdd iechyd i ganfod unrhyw achosion o dorri gofynion caffael
- mae'r fframwaith gwerth a chynaliadwyedd yn neilltuo arweinydd gweithredol i bob categori arbedion, gyda chymorth gan dimau sy'n darparu arbenigedd clinigol, gweithredol a chyllidol
- mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn tuag at gyflawni'r gofynion arbedion a amlinellir yng nghynllun y sefydliad o ran camau gweithredu, gwerth ariannol, a hyrwyddwyr cefnogol

## Cynllunio a thrawsnewid gwasanaethau

Ni lwyddodd y bwrdd iechyd i gyflwyno cynllun tymor canolig integredig wedi'i fantoli ar gyfer 2024 i 2027, yn unol ag adran 175(2A) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014) a Fframwaith Cynllunio'r GIG. Mae wedi cyflwyno cynllun blynyddol ar gyfer 2024 i 2025.

Mae'r bwrdd iechyd wedi ymrwymo i sefydlu a datblygu ei strategaeth gwasanaethau clinigol a'i gynllun clinigol yn ystod 2024 i 2025.

Mae adolygiad annibynnol o brosesau cynllunio integredig yn y bwrdd iechyd wedi'i gynnal. Cymeradwywyd cynllun gweithredu ac ymateb rheoli'r bwrdd iechyd i'r adolygiad gan ei bwyllgor perfformiad, cyllid a llywodraethu gwybodaeth ar 30 Ebrill 2024. Mae 70% o'r camau gweithredu wedi'u cyflawni ac mae'r bwrdd iechyd yn adrodd bod yr holl gamau gweithredu sy'n weddill yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-i-medi-2024-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

mynd rhagddynt heb unrhyw risgiau o ran cyflawni wedi'u nodi.

**Cafodd proses gynllunio integredig newydd ei chymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Medi 2024**, sy'n cyd-fynd yn gyfan gwbl â'r Fframwaith Cynllunio Integredig. Y bwriad oedd lansio'r broses ar draws y sefydliad ym mis Hydref 2024.

# Gwasanaethau bregus

Pan roddwyd y bwrdd iechyd o dan fesurau arbennig, roedd bregusrwydd, ansawdd ac anghysondeb o ran darparu gwasanaethau yn bryderon gwirioneddol ar draws nifer o wasanaethau. Roedd pryderon penodol yn ymwneud ag iechyd meddwl, gwasanaethau fasgwlaidd a gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae llawer o'r heriau hyn yn parhau o hyd, er bod cynnydd wedi'i wneud mewn rhai meysydd. Mae'r gwaith sydd wedi'i gynnal ers mis Chwefror 2023 yn amlygu natur fregus llawer o wasanaethau ar draws y bwrdd iechyd.

# Iechyd meddwl

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)

Mae cynlluniau gwella gwasanaethau CAMHS a gwasanaethau niwroddatblygiadol wedi'u datblygu ac mae tîm gweithredol y bwrdd iechyd wedi cytuno arnynt. Canolbwyntir ar ddatblygu model cynaliadwy.

Mae pob maes bellach yn darparu rhai oriau estynedig. Mae'r gwasanaethau yng ngorllewin y bwrdd yn cynnig gwasanaeth bob dydd, mae'r gwasanaethau yn y canol ar waith o ddydd Llun i ddydd Gwener ac mae'r gwasanaethau yn y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-i-medi-2024-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

dwyrain ar waith ddau ddiwrnod yr wythnos ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cynyddu yn dilyn penodi rhagor o weithwyr.

### Adolygiad Coleg Brenhinol y Seiciatryddion o adolygiadau iechyd meddwl

Yng nghyfarfod cyhoeddus y bwrdd a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2024, cymeradwyodd y bwrdd iechyd **gynllun yn amlinellu camau gweithredu ac amserlenni mewn ymateb i ganfyddiadau adolygiad y Coleg Brenhinol**.

Ym mis Medi 2024, cadarnhaodd y bwrdd iechyd ei fod wedi penodi cynghorydd arbennig iechyd meddwl am gyfnod o 12 mis. Bydd y cynghorydd arbennig hwn yn gadeirydd annibynnol ar grŵp cynghori arbenigol a sefydlwyd gyda chynrychiolwyr teuluoedd a defnyddwyr a Llais. Mae'r grŵp newydd hwn yn elfen bwysig o drefniadau llywodraethiant a goruchwylio'r bwrdd iechyd o ran ei ymateb i adolygiad y Coleg Brenhinol.

Pwyllgor ansawdd, diogelwch a phrofiad y bwrdd iechyd fydd y brif weithdrefn oruchwylio a bydd adroddiadau sicrwydd rheolaidd gan y cadeirydd yn cael eu defnyddio i helpu'r grŵp cynghori arbenigol a'r pwyllgor. Roedd disgwyl i'r adroddiad cynnydd cyntaf gael ei gyflwyno i'r pwyllgor ansawdd, diogelwch a phrofiad yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2024. Bydd y bwrdd iechyd yn darparu adroddiadau cynnydd bob chwe mis i'r bwrdd, gan ddechrau ym mis Ionawr 2025.

## Gwasanaethau fasgwlaidd

Cafodd adroddiad cynnydd ar y gwelliannau sy'n cael eu cynnal yng ngwasanaethau fasgwlaidd y Gogledd ei ystyried gan y bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2024. Daeth y papur i'r casgliad bod cynnydd yn cael ei wneud

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-i-medi-2024-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

erbyn hyn a bod sawl ffynhonnell asesu allanol yn ategu'r casgliad hwnnw. Fodd bynnag, mae rhagor o waith i'w wneud i barhau i wella canlyniadau a phrofiadau yn ogystal â chynaliadwyedd.

Mae sefydlogrwydd cynyddol y gwasanaeth yn galluogi'r bwrdd iechyd, ac yn benodol y gwasanaeth hwn, i ganolbwyntio mwy ar ddatblygu yn rhagweithiol ac yn barhaus yn y dyfodol. Bydd newidiadau strategol yn yr arbenigedd hwn yn parhau ledled y DU ac yn rhyngwladol, a bydd y bwrdd iechyd yn ystyried y rhain ymhellach yn ystod y misoedd nesaf.

# Casgliadau

Mae'r fframwaith mesurau arbennig yn egluro ein disgwyliadau o ran y blaenoriaethau a'r cerrig milltir y mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd eu cyflawni. Rydym yn parhau i weithio gyda'r bwrdd iechyd drwy ein trefniadau goruchwylio a sicrwydd, er mwyn sicrhau bod y gwelliannau gofynnol mewn perthynas â chanlyniadau, perfformiad, gwasanaethau clinigol bregus ac ansawdd a diogelwch yn cael eu cyflymu, a bod y systemau a'r strwythurau angenrheidiol ar waith i sicrhau bod y gwelliannau hyn yn gynaliadwy.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-i-medi-2024-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.